



Rhaglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014 i 2020 Llywodraeth Cymru

Eich barn ar y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd: rheolwyr busnesau bwyd

Mae'r Is-adran Bwyd yn Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yn Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru i ymchwilio i effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir trwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

Nod yr ymchwil hwn yw deall y meysydd sy'n gweithio'n dda gyda'r Cynllun, ynghyd â'r rhai nad ydynt yn gweithio cystal a ble mae lle i wella. Un o elfennau allweddol yr ymchwil yw clywed barn unigolion sy'n derbyn cymorth ac unigolion sy'n darparu'r cymorth. Fel rhan o'r ymchwil hwn, bydd Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yn cynhoi gwybodaeth trwy gyfweiliadau â Rheolwyr Busnesau Bwyd.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Bydd y tîm ymchwil yn dileu data personol cyn ysgrifennu'r adroddiad ac ni fydd yn darparu data y gellir ei ddefnyddio i'ch adnabod i eraill yn Llywodraeth Cymru oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud hynny.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisiau Llywodraeth Cymru.

Hysbysiad preifatrwydd

Pa ddata personol sydd gennym a ble rydym yn cael y wybodaeth hon?

Mae data personol yn cael ei ddiffinio o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy a allai gael ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn benodol wrth gyfeirio at ddyfais adnabod'.

Mae cyfeiriadau e-bost Rheolwyr Busnesau Bwyd yn cael eu cadw gan Uned Rheoli'r Cynllun. Mae swyddogion polisi o'r Is-adran Bwyd wedi cael y sampl o ymatebwyr posibl i'r cyfweiliadau o'r cyfeiriadau e-bost hyn. Maent wedi'u harbed mewn ffolder â mynediad cyfyngedig.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol. Os nad ydych chi eisiau cymryd rhan neu os nad ydych chi eisiau derbyn negeseuon atgoffa, ymatebwch i'r e-bost gwahoddiad neu defnyddiwch y rhif ffôn a ddarperir a bydd eich manylion yn cael eu dileu. Bydd y tîm ymchwil ond yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn at ddibenion y prosiect ymchwil hwn. Fel rhan o'r ymchwil hwn, byddwn yn crynhoi rhywfaint o wybodaeth bersonol (eich enw a'ch rôl) yn y cyfweiliad i helpu i roi eich ymatebion mewn cyd-destun. Er nad yw'n ofynnol, gallwch ddewis darparu data personol hefyd trwy eich ymatebion i gwestiynau'r cyfweiliad.

Os byddwch yn dewis darparu data personol ychwanegol fel rhan o'r ymchwil, ni fyddwn yn ceisio eich adnabod na'ch cysylltu chi ag unrhyw ymatebion a ddarparwch. Hoffem recordio cyfweiliadau, ond byddwn yn gofyn i chi cyn i'r cyfweiliad gychwyn a ydych chi'n hapus i gael eich recordio. Byddai'r recordiad yn cael ei drawsgrifio gan yr ymchwilydd a gynhaliodd y cyfweiliad o fewn ychydig ddiwrnodau i'r cyfweiliad a bydd y recordiadau o'r cyfweiliad yn cael eu dileu ar ôl eu trawsgrifio. Bydd unrhyw ddata personol y byddwch chi wedi'i ddarparu yn ystod y cyfweiliad yn cael ei ddileu o'r trawsgrifiad cyn ei ddadansoddi.

Os byddwch chi'n gofyn cwestiwn neu'n gwneud cwyn ac yn darparu data personol wrth ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd ond yn anfon y cais at y swyddog perthnasol cyn dileu'r data o'r data ymchwil.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel yr un hon yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi allu casglu gwybodaeth a thystiolaeth o'i gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Bydd y wybodaeth a gesglir fel rhan o'r ymchwil hwn yn helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau

mewn perthynas â chymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau yn y sector bwyd a diod yn y dyfodol.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae data personol a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw ar weinyddion diogel ac, ar gyfer y prosiect hwn, mae ffolder wedi'i greu a dim ond y tîm ymchwil sydd â'r hawl i gael mynediad iddo. Bydd eich manylion cyswllt ac unrhyw ddata personol y dewiswch ei ddarparu yn cael ei storio yn y ffolder cyfyngedig hwn. Ni fydd yr ymchwilwyr yn darparu unrhyw wybodaeth bersonol wrth adrodd canfyddiadau i'r tîm polisi.

Bydd yr holl ddata a grynhoir trwy'r ymchwil hwn yn cael ei adrodd mewn fformat di-enw. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a bydd unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i'ch adnabod yn cael ei dileu. Bydd Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy yn defnyddio'r wybodaeth a grynhoir i gynhyrchu adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Am faint rydym yn cadw eich data personol?

Bydd unrhyw ddata personol na chafodd ei ddileu wrth drawsgrifio yn cael ei ddileu gan Dîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy o'u ffolder prosiect cyfyngedig dri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Hawliau unigol

O dan GDPR, mae gennych chi'r hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarparwch fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn:

- i gael copi o'ch data eich hun
- i ni gael cywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (o dan rai amgylchiadau)
- i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113.

Gwefan: www.ico.gov.uk

Mwy o wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am sut bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon neu os ydych chi eisiau arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Kate Mulready (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)

Ffôn: 0300 025 1481

Ebost: kathleen.mulready001@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ebost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru